



Y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (Covid-19)

MEHEFIN 2020



Hanes y fersiwn

Cyhoeddwyd Fersiwn 1 o'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (Covid-19) ar 29 Mehefin 2020. Bydd hwn yn disodli ein Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi presennol (Tachwedd 2019) a bydd yn parhau mewn grym tan unrhyw ddyddiad a bennir gan Gymwysterau Cymru.

Croesewir adborth ar y ddogfen hon ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau at polisi@cymwysteraucymru.org

Y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi

1. Mae'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) yn weithdrefn y mae Cymwysterau Cymru yn ei chyflawni er mwyn adolygu'r canlynol:
 - a oedd y corff dyfarnu yn cydymffurfio â'n gofynion rheoleiddio;
 - a oedd y corff dyfarnu yn cydymffurfio â'i bolisiâu a'i weithdrefnau ei hun;
 - a gafodd unrhyw wall a nodwyd yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu gradd(au) wedi'i gyfrifo a/neu yn y radd(au) a roddwyd ei gywiro'n briodol, a
 - penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw gamau sydd i'w cymryd yn erbyn dysgwyr neu ganolfan yn dilyn ymchwiliad i gamymddygiad neu gamweinyddu.

Cwmpas

2. O ran cymwysterau TGAU, TAG UG, TAG Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu fod â phrosesau apelio yn unol ag Amod GQCov5 o'n [Fframwaith Rheoleiddio Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol – COVID-19 Amodau a Gofynion](#).
3. Defnyddir yr EPRS (Covid-19) ar gyfer adolygu apelïadau a gynhelir gan gyrff dyfarnu ar y seiliau canlynol:
 - (a) nad oedd y corff dyfarnu wedi cymhwyso unrhyw broses neu weithdrefnau yn unol ag Amod GQCov3.2(a)(i) yn gyson neu nad oedd proses a gweithdrefnau o'r fath cael eu dilyn yn iawn ac yn deg;
 - (b) bod y corff dyfarnu wedi defnyddio'r data anghywir wrth gymhwyso'r broses a'r gweithdrefnau yn unol ag Amod GQCov3.2(a)(i);
 - (c) bod canlyniad a gynhyrchwyd trwy gymhwyso'r broses a'r gweithdrefnau yn unol ag Amod GQCov3.2(a)(i) wedi'i gyflwyno'n anghywir gan y corff dyfarnu mewn perthynas ag un neu fwy o ddysgwyr, a

- (d) penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw gamau sydd i'w cymryd yn erbyn dysgwr neu ganolfan yn dilyn ymchwiliad i gamymddygiad neu gamweinyddu.

4. Mae EPRS (Covid-19) yn ymwneud â dyfarnu'r cymwysterau canlynol:
- Cymwysterau TGAU Cymeradwy;
 - Cymwysterau TAG UG Cymeradwy;
 - Cymwysterau TAG Safon Uwch Cymeradwy;
 - Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (SCC), a
 - Cymwysterau TGAU, TAG UG a TAG Safon Uwch etifeddol sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn unig¹.
5. Ar gyfer cymwysterau cyffredinol eraill a gymerir yr haf hwn, dylai ymgeiswyr gyfeirio at broses EPRS Ofqual, y gellir ei gweld ar eu [gwefan](#).
6. Er mai dim ond i'r cymwysterau a restrir uchod y mae'r EPRS (Covid-19) yn berthnasol, byddwn yn delio â chwynion ynglŷn â dyfarnu cymwysterau eraill a reoleiddir yn unol â'n [Polisi Cwynion am Gyrrff Dyfarnu](#).

Pwy all wneud cais am EPRS (Covid-19)?

7. Rhaid i geisiadau gael eu gwneud gan ganolfan ar ran dysgwr yr effeithir arno'n uniongyrchol gan benderfyniad gwreiddiol y corff dyfarnu.
8. Gall Ymgeisydd Preifat sy'n cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn Amodau GQCov3.5 gyflwyno cais ei hun.

Beth yw EPRS (Covid-19)?

9. Mae'r EPRS (Covid-19) yn cynnwys panel sy'n gyfrifol am adolygu'r broses a gyflawnir gan y corff dyfarnu wrth ymdrin â'r apêl.

¹ CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Economeg y Cartref: Datblygiad Plant, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol CBAC Lefel 3 mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Gyfrannol CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

10. Ar ffurf panel, bydd panelwyr yr EPRS (Covid-19) yn penderfynu i ba raddau yr oedd y cyrff dyfarnu yn cydymffurfio â'n gofynion a chyda'u polisiau a'u gweithdrefnau eu hunain. Felly, dim ond achosion sydd wedi gorffen cam penderfyniad terfynol a glywir gennym fel arfer. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y corff dyfarnu wedi cael cyfle i ddelio â'r achos yn llawn a'n bod yn adolygu'r broses gyfan honno ar gyfer cydymffurfio.
11. I'r ymgeisydd, mae hyn yn golygu bod proses apelio wedi'i chwblhau ac o bosibl bod adolygydd annibynnol wedi adolygu'r penderfyniad gan y corff dyfarnu ac wedi cadarnhau'r penderfyniad hwnnw, cyn gwneud cais i ni. Yr EPRS (Covid-19) yw'r dyfarnwr terfynol.
12. Yn ogystal, ni fydd EPRS (Covid-19) fel arfer yn ystyried cais a wnaed fwy nag 20 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cafodd yr ymgeisydd benderfyniad terfynol gan y corff dyfarnu.
13. Gellir delio â chwynion eraill yn ymwneud â gweithredoedd cyrff dyfarnu wrth ddyfarnu cymwysterau rheoleiddiedig yn unol â'n [Polisi Cwynion am Gyrrff Dyfarnu](#).

Panel EPRS (Covid-19)

14. Bydd y Panel EPRS (Covid-19) fel arfer yn cynnwys ein Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, Pennaeth Monitro a Chydymffurfiaeth a Phennaeth Polisi Rheoleiddio. Gall y Panel EPRS (Covid-19) ar unrhyw adeg ofyn am gyngor cyfreithiol, technegol neu gyngor sy'n ymwneud ag achosion penodol, a gall hefyd alw ar adolygwyr annibynnol yn ôl yr angen.
15. Gellir cynnal y Panel EPRS (Covid-19) fel adolygiad desg o'r holl dystiolaeth, neu gellir cynnal gwrandawriad, yn ogystal â chasglu tystiolaeth gan gynnwys trwy gyfweiliadau ag unigolion perthnasol.

Cysylltu â EPRS (Covid-19)

16. Os ydych yn dymuno i'ch apêl gael ei hadolygu gan EPRS (Covid-19), cysylltwch â ni ar:

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2
Lôn Pencarn,
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

01633 373 222

rheolaethgorfforaethol@cymwysteraucymru.org

17. Pan fyddwch yn cysylltu â ni, dylech ein hysbysu o'r canlynol:

- eich enw;
- enw'r corff dyfarnu perthnasol; a
- crynodeb o'r achos, gan gynnwys enw'r cymhwyster perthnasol ac unrhyw ddyddiadau perthnasol.

Dylech nodi eich bod am i'r achos gael ei adolygu gan ein EPRS (Covid-19), a chynnwys digon o wybodaeth i'n galluogi i benderfynu a yw'r achos yn dod o fewn cwmpas ein proses ERPS (Covid-19) ai peidio.

Proses yr adolygiad

18. Wrth dderbyn y cais, byddwn yn galw panelwyr yr EPRS (Covid-19) i benderfynu a yw'r cais o fewn cwmpas y polisi hwn. Ar adegau pan fydd, byddwn wedyn yn cysylltu â'r ymgeisydd i gadarnhau hyn ac amlinellu ein hamserlenni i gyflawni'r broses ERPS (Covid-19).
19. Pan nad yw'r cais o fewn cwmpas y polisi hwn, byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd i roi gwybod iddynt o fewn 10 diwrnod ar ôl derbyn eu cais yn esbonio'r rhesymau pam.
20. Bydd yr EPRS (Covid-19) fel rheol yn cymryd tua 28 diwrnod i'w gwblhau. Os bydd angen mwy o amser arnom, byddwn yn cysylltu â'r ymgeisydd ac yn esbonio'r rhesymau dros hyn.
21. Pan fydd angen tystiolaeth bellach gan yr ymgeisydd a/neu'r corff dyfarnu, byddwn yn eu hysbysu, gan nodi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom ac yn nodi'r amserlen y mae'n rhaid darparu'r dystiolaeth honno ynddi.

22. Bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu a ddylid datgelu'r dystiolaeth bellach i'r ymgeisydd neu i'r corff dyfarnu, fel y bo'n briodol a gallant ganiatáu cyfnod i sylwadau gael eu gwneud yn dilyn datgeliad o'r fath.

Adroddiad

23. Bydd y Panel EPRS (Covid-19) yn cynhyrchu adroddiad yn crynhoi ei ganfyddiadau. Gall hyn gynnwys argymhellion i'w gwneud i'r corff dyfarnu neu'r ganolfan. Bydd yr adroddiad yn:
- (a) nodi'r agwedd ar weithdrefnau'r corff dyfarnu ei hun y mae'n credu nad yw'r corff dyfarnu wedi ei dilyn; a/neu
 - (b) nodi'r canlyniad y mae'r corff dyfarnu wedi methu â'i sicrhau ac unrhyw Amod(au) y mae'r Panel yn credu nad yw'r dyfarniad wedi cydymffurfio ag ef/hwy hwy; a
 - (c) nodi unrhyw anfantais neu anfantais bosibl i ddysgwyr perthnasol; a
 - (d) esbonio'r rhesymau dros ei benderfyniad, gan gynnwys nodi'r dystiolaeth y mae wedi dibynnu arni, egluro unrhyw gasgliadau y mae wedi'u tynnu ac unrhyw dystiolaeth nad yw wedi teimlo y gall ddibynnu arni.
24. Os yw'r EPRS (Covid-19) yn nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio posibl ar ran corff dyfarnu, cyfeirir hyn at y tîm Monitro a Chydymffurfiaeth. Er bod yr adroddiad yn cloi'r broses EPRS, rydym yn rhagweld y bydd canfyddiadau diffyg cydymffurfio fel arfer yn cychwyn llif gwaith newydd i ymchwilio i weld a oes angen cymryd camau rheoleiddio yn unol â'n Polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith.
25. Bydd y Panel EPRS (Covid-19) yn cyflwyno eu hadroddiad i Fwrdd Rheoleiddio Cymwysterau Cymru.